Wales National Pool Swansea
Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe

# S W Y D D  D D I S G R I F I A D

| | | |
|---|---|---|
| **TEITL:** | | Athro/Athrawes Nofio Lefel 2 |
| **CYFLOG:** | £27,290 - £28,961 pro rata | |
| **YN ATEBOL I:** | | Cydlynydd yr Ysgol Ddŵr / y Rheolwr Chwaraeon |

**PRIF DDIBEN Y SWYDD**

1. Cynorthwyo Cydlynydd yr Ysgol Ddŵr (ASC) / y Rheolwr Chwaraeon (SM) ac athrawon eraill yr Ysgol Ddŵr i gyflwyno rhaglen yr Ysgol Ddŵr yn effeithlon, effeithiol a phroffesiynol.
2. Bod yn gyfrifol am reoli a goruchwylio Athrawon sy'n hyfforddi yn y dŵr, dan gyfarwyddyd yr ASC/SM.
3. Sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei weithredu yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion statudol cyfredol (Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac ati).

**DYLETSWYDDAU PENODOL**

1. Paratoi cynlluniau gwersi a rhoi gwersi nofio i gwsmeriaid, yn y pwll neu fel arall, yn ôl y gofyn.
2. Bod yn gyfrifol am gynnal a diweddaru pob cofrestr gan ddefnyddio dyfeisiau tabled. Monitro, diwygio a diweddaru'r holl ddata. Sicrhau bod y dyfeisiau tabled yn cael eu cadw a'u storio'n gywir.
3. Dangos presenoldeb a chyfrifoldeb amlwg dros ddosbarthiadau pan fyddwch wedi'ch clustnodi fel prif hyfforddwr.
4. Bod yn gyfrifol am gynnal a chydlynu asesiadau disgyblion a gwerthusiadau cymwyseddau, a darparu adborth cywir i rieni neu warcheidwaid. Cyd-drafod â'r ASC i sicrhau bod y tystysgrifau/bathodynnau perthnasol yn cael eu dosbarthu yn unol â Deiliannau Dysgu Nofio Cymru/Cynlluniau Gwersi Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (WNPS).
5. Bod yn gyfrifol am ddarpariaeth weithredol sesiynau'r Ysgol Ddŵr sy'n berthnasol i'ch swydd chi.
6. Sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol o fentrau newydd ac yn ennill cymwysterau ychwanegol os ydynt yn ofynnol ar gyfer eich swydd.
7. Bod yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i bolisïau amddiffyn plant.
8. Darparu gwasanaeth a gofal cwsmer o'r safon uchaf.
9. Mynychu pob cyfarfod staff a hyfforddiant a drefnir gan yr ASC/SM.
10. Gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Ysgol Ddŵr a helpu i hybu proffil yr ysgol.
11. Sicrhau bod holl offer WNPS mewn cyflwr da, a sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio, ei gynnal yn briodol a'i storio yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch WNPS ac asesiadau risg yr Ysgol Ddŵr. Rhoi gwybod i'r ASC am unrhyw anghenion o ran offer.
12. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd ar gais yr ASC/SM neu'r Timau Rheoli.

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) -

Oherwydd ei natur, dyletswyddau a chyfrifoldebau, bydd y swydd hon yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwiriad manwl fydd y lefel gwiriad. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y gwiriad hwn gan y DBS, cysylltwch â mi.

**Dyddiad adolygu/hawl i amrywio:** Bydd y Swydd Ddisgrifiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn ichi ymgymryd â thasgau eraill y byddai'n rhesymol eu neilltuo ichi ac sydd o fewn eich gallu a'ch graddfa.

Enw *(mewn print)* Llofnod

Dyddiad

# M A N Y L E B   P E R S O N

| TEITL Y SWYDD: | Athro/Athrawes Nofio Lefel 2 | **Cyflog** | £27,290 - £28,961 pro rata |
|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **CYMWYSTERAU ADDYSGOL** | Cymhwyster Athro/Athrawes Nofio Lefel 2 UKCC neu ASA. |
| **PROFIAD** | Dylai bod gan ymgeiswyr ymrwymiad i chwaraeon a hamdden a dylai bod ganddynt brofiad gwaith priodol.<br>Profiad o roi gwersi nofio/chwaraeon dŵr. |
| **SGILIAU A GALLUOEDD** | Rhaid i ymgeiswyr am y swydd feddu ar y sgiliau a galluoedd allweddol canlynol a fydd yn eu galluogi i gyflawni'r dyletswyddau yn effeithiol:-<br>1. Dealltwriaeth o gynlluniau datblygu chwaraeon a'r Cynlluniau Addysgu Cenedlaethol ar gyfer nofio gan Dysgu Nofio Cymru/ASA.<br>2. Ymrwymiad cryf i Ofal Cwsmer.<br>3. Sgiliau rhyngbersonol da gyda'r gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gydag amrywiaeth eang o bobl, o fewn a thu allan i'r sefydliad.<br>4. Sgiliau cyfathrebu rhagorol.<br>7. Sgiliau dadansoddi gwych, a'r gallu i ddatrys problemau'n rhesymegol a gwneud penderfyniadau priodol.<br>8. Y gallu i ymateb yn gadarnhaol i newid yn yr amgylchedd gwaith ac ymdrin yn effeithiol â phwysau gwaith pan fydd hynny'n codi.<br>9. Dealltwriaeth o anghenion perfformwyr chwaraeon o bob gallu a bob oed.<br>10. Y gallu i weithio fel rhan o dîm. |
| **YMRWYMIAD I GYFLE CYFARTAL** | Dylai ymgeiswyr feddu ar wybodaeth o Bolisi Cyfle Cyfartal Pwll Cenedlaethol Cymru a gwerthfawrogiad o'r ffordd mae'r polisi yn effeithio ar weithdrefnau ac arferion. |
| **GOFYNION ARBENNIG** | Mae'r swydd hon yn gofyn am ddatgeliad **manwl**.  Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau cais DBS ar gyfer datgeliad ar y lefel hon. |

## Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)
## GWIRIADAU DATGELU

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), un o Asiantaethau Gweithredol y Swyddfa Gartref, yn darparu mynediad ehangach at wybodaeth cofnodion troseddol drwy ei wasanaeth Datgelu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer math penodol o waith, yn enwedig gwaith sy'n ymwneud â phlant neu oedolion bregus. Sefydlwyd y DBS dan Ran V Deddf yr Heddlu 1997 ac fe'i lansiwyd ym mis Mawrth 2002.

Gall y DBS roi 5 lefel o Dystysgrif Datgelu, yn dibynnu ar y swydd y gwneir cais amdani, sef gwiriadau Safonol, Manwl, Manwl gyda gwiriad yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (plant), Manwl gyda gwiriad yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (oedolion) a Manwl gyda gwiriad yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (plant ac oedolion).

Dylai darpar ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau cais am y lefel briodol o ddatgeliad cyn y cadarnheir unrhyw gynnig o benodiad; bydd Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe yn darparu'r Ffurflenni Cais DBS perthnasol. Bydd hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu prawf adnabod ar y ffurfiau canlynol: Pasbort, Trwydded Yrru, Tystysgrif Geni a Biliau Cyfleustodau.

Mae Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pob cyflogai presennol a phob ymgeisydd posib. Caiff ymgeiswyr eu dewis ar sail sgiliau, cymwysterau a phrofiad, ac wrth eu cymharu â'r Fanyleb Person. Ni fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn gwahardd ymgeiswyr rhag gweithio gyda Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe. Bydd yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir y drosedd.

Mae gan Bwll Cenedlaethol Cymru Abertawe bolisi ysgrifenedig ar Recriwtio Cyn-droseddwyr, sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer y DBS, a'i fwriad yw trin pob ymgeisydd yn deg. Mae Cod Ymarfer y DBS, Polisi Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe ar Ddiogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol Datgeliad, a gwybodaeth ynghylch Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ar gael gan y Rheolwr Chwaraeon ar gyfer Adnoddau Dynol.
Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y DBS ar gael yma hefyd: www.homeoffice.gov.uk/agencies-public-bodies/dbs/